Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Adroddiad (SLC (3)-30-09)

Dyddiad: 9 Rhagfyr 2009
Amser: 9.30
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 9 Rhagfyr 2009. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Alun Davies AC, William Graham AC a Joyce Watson AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Mike German AC. Ni chafwyd unrhyw ddirprwyon.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC356 - Rheoliadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 25 Tachwedd 2009. Fe'u gosodwyd ar 26 Tachwedd 2009. Yn dod i rym ar 17 Rhagfyr 2009

Dywedodd y Pwyllgor fod Rheoliad 3(1) yn nodi bod aelodau'r cyd-bwyllgor yn cynnwys Prif Weithredwyr pob Bwrdd Iechyd Lleol ynghyd â nifer o bobl eraill.

Dywedodd y Pwyllgor hefyd fod un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi y dylai fod gan bob Prif Weithredwr y Byrddau Iechyd Lleol ddirprwy penodedig. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi y bydd Memorandwm rhwng Prif weithredwyr y Byrddau Iechyd Lleol a Rheolau Sefydlog y Cyd-bwyllgor yn mynd i'r afael â hyn.

O gofio'r hyn sy'n ymddangos fel y trefniadau argymhellol o ran aelodaeth mewn perthynas â Phrif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol fel y'u nodir yn rheoliad 3(1), nid oedd y Pwyllgor yn glir sut y byddai'r Memorandwm arfaethedig yn gallu caniatáu i ddirprwyon fynychu'r cyfarfodydd.

Cytunodd y Pwyllgor i beidio â gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau o dan Reol Sefydlog 15.2 ond i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am fwy o eglurder ar y mater hwn.

SLC357 - Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Tachwedd 2009. Fe'u gosodwyd ar 27 Tachwedd 2009. Yn dod i rym ar 19 Rhagfyr 2009

Dywedodd y Pwyllgor fod y Memorandwm Esboniadol yn nodi ym mharagraff 6.1 nad yw'r Asiantaeth wedi cynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan nad yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn effeithio'n sylweddol ar Gymru. Wedi dweud hyn, roedd y Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau yn gwrth-ddweud hyn drwy nodi (ym mharagraff 3) bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gostau a manteision posibl cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW.

Cytunodd y Pwyllgor i beidio â gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau o dan Reol Sefydlog 15.2 ond i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am fwy o eglurder ar y mater hwn.

SLC359 - Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 30 Tachwedd 2009. Fe'u gosodwyd ar 02 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 1 Ionawr 2009

SLC360 - Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 30 Tachwedd 2009. Fe'u gosodwyd ar 02 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2009

SLC361 - Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 2 Rhagfyr 2009. Fe'u gosodwyd ar 4 Rhagfyr 2009. Yn dod i rym ar 1 Ionawr 2009

Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC358 - The Common Agricultural Policy Single Payment and Support Schemes (Wales) (Amendment) Regulations 2009 (Saesneg yn unig)
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 30 Tachwedd 2009. Fe'u gosodwyd ar 30 Tachwedd 2009. Yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2009

Ceir copi o adroddiad y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 i'r Rheoliadau hyn yn Atodiad 1.

Unrhyw fater arall

Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr

Yn unol â'i gylch gwaith o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii) (caiff y Pwyllgor ystyried "pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig… sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru" (a chyflwyno adroddiadau ar hynny).

Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Tachwedd 2009 a phenderfynodd ysgrifennu at Jane Davidson AC, Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn am bapur briffio ar y Mesur Seneddol a'i gwahodd i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor yn y flwyddyn newydd.

Gohebiaeth gan y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor ymateb Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i lythyr y Cadeirydd ynghylch SLC346 – Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru (Diwygio) 2009.

Derbyniodd y Pwyllgor gyfiawnhad y Gweinidog dros ddefnyddio'r Rheoliadau a ddrafftiwyd ar gyfer Lloegr fel deddfwriaeth ddiofyn ar gyfer Cymru. Cytunodd y Pwyllgor fod rôl Asiantaethau'r Llywodraeth wrth wneud is-ddeddfwriaeth yn fater y bydd angen ymhelaethu arno ymhellach o bosibl fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i Offerynnau Statudol.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

9 Rhagfyr 2009